

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A470
(Glan-bad i Gyfnewidfa Bridge
Street, Pontypridd, Rhondda Cynon
Taf) (Terfyn Cyflymder 50 mya
Dros Dro) 2018

The A470 Trunk Road (Upper Boat
to Bridge Street Interchange,
Pontypridd, Rhondda Cynon Taf)
(Temporary 50 mph Speed Limit)
Order 2018

Gwnaed 14 Mehefin 2018
Yn dod i rym 18 Mehefin 2018

Made 14 June 2018
Coming into force 18 June 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be restricted because of the likelihood of a danger to the public.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1)(b) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1)(b) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Glan-bad i Gyfnewidfa Bridge Street, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 18 Mehefin 2018.

1. The title of this Order is the A470 Trunk Road (Upper Boat to Bridge Street Interchange, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf) (Temporary 50 mph Speed Limit) Order 2018 and it comes into force on 18 June 2018.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig 1984(2); a

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2); and

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefinol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A470 Caerdydd i Llangurig;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

4. Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y'i dangosir gan arwyddion traffig.

Atal Dros Dro

5. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau modur ar y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn gymwys.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

14 Mehefin 2018

Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A470 Cardiff to Llangurig Trunk Road.

Restriction

3. No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 50 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

Application

4. The restriction in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Suspension

5. Any statutory provisions restricting the speed of motor vehicles on the lengths of the trunk road described in the Schedule to this Order are suspended during such times as the restriction specified in article 3 applies.

Duration of this Order

6. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated

14 June 2018

Richard Morgan

Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

YR ATODLEN

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 320 o fetrau i'r de o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Glan-bad hyd at bwynt 450 o fetrau i'r gogledd o drwyniad y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Bridge Street, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf.

Y darnau o'r ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gogledd a thua'r de wrth Gyfnewidfa Glan-bad, y ffordd ymadael tua'r gogledd a'r ffordd ymuno tua'r de wrth Gyfnewidfa Glyn-taf a Chyfnewidfa Broadway a'r ffordd ymuno tua'r gogledd a'r ffordd ymadael tua'r de wrth Gyfnewidfa Bridge Street.

SCHEDULE

The length of the trunk road that extends from a point 320 metres south of the nosing of the northbound exit slip road at Upper Boat Interchange to a point 450 metres north of the nosing of the northbound entry slip road at Bridge Street Interchange, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf.

The lengths of the northbound and southbound exit and entry slip roads at Upper Boat Interchange, northbound exit and southbound entry slip roads at Glyntaff Interchange and Broadway Interchange and northbound entry and southbound exit slip roads at Bridge Street Interchange.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (GLAN-
BAD I GYFNEWIDFA BRIDGE STREET,
PONTYPRIDD, RHONDDA CYNON TAF)
(TERFYN CYFLYMDER 50 MYA DROS DRO)
2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd ar gefnffordd yr A470 neu gerllaw iddi, rhwng Glanbad a Chyfnwidfa Bridge Street, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf.

Mae Gweinidogion Cymru yn cyflwyno terfynau cyflymder dros dro er mwyn mynd i'r afael â lefelau nitrogen deuocsid (NO₂) mewn lleoliadau penodol ar y rhwydwaith cefnffyrdd yng Nghymru sydd yn uwch na'r terfynau cyfreithiol ar hyn o bryd. Y bwriad yw y bydd terfynau cyflymder is yn lleihau allyriadau cerbydau ac yn gwella ansawdd yr aer, gan gynorthwyo i gydymffurfio â'r terfynau NO₂ a nodir mewn deddfwriaeth. Os bydd y lefelau NO₂ yn lleihau'n llwyddiannus, gwneir trefniadau i wneud y terfynau cyflymder yn barhaol.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder 50 mya dros dro ar:

i. y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o bwynt 320 o fetrau i'r de o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyfnwidfa Glanbad hyd at bwynt 450 o fetrau i'r gogledd o drwyniad y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnwidfa Bridge Street, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf; a

ii. y darnau o'r ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gogledd a thua'r de wrth Gyfnwidfa Glanbad, y ffordd ymadael tua'r gogledd a'r ffordd ymuno tua'r de wrth Gyfnwidfa Glyn-taf a Chyfnwidfa Broadway a'r ffordd ymuno tua'r gogledd a'r ffordd ymadael tua'r de wrth Gyfnwidfa Bridge Street.

Disgwylir y bydd y cyfyngiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn dod i rym am 00:01 o'r gloch ar 18 Mehefin 2018 a bydd yn parhau mewn grym am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Statudol Lleol/Gorchmynion Traffig Dros Dro/2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A470 TRUNK ROAD (UPPER BOAT TO
BRIDGE STREET INTERCHANGE,
PONTYPRIDD, RHONDDA CYNON TAF)
(TEMPORARY 50 MPH SPEED LIMIT) ORDER
2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 because of a likelihood of danger to the public on or near the A470 trunk road between Upper Boat and Bridge Street Interchange, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf.

The Welsh Ministers are introducing temporary speed limits to address nitrogen dioxide (NO₂) levels at particular locations on the trunk road network in Wales which are currently above legal limits. The intention is that lower speed limits will reduce vehicle emissions and improve air quality, aiding compliance with NO₂ limits set out in legislation. If successful in reducing NO₂ levels, arrangements will be made to make the speed limits permanent.

The effect of the Order is to impose a temporary 50 mph speed limit on:

i. the length of the A470 trunk road that extends from a point 320 metres south of the nosing of the northbound exit slip road at Upper Boat Interchange to a point 450 metres north of the nosing of the northbound entry slip road at Bridge Street Interchange, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf; and

ii. the lengths of the northbound and southbound exit and entry slip roads at Upper Boat Interchange, northbound exit and southbound entry slip roads at Glyntaff Interchange and Broadway Interchange and northbound entry and southbound exit slip roads at Bridge Street Interchange.

The temporary restriction, which will be signed accordingly, is expected to come into force at 00:01 hours on 18 June 2018 and will remain in force for a maximum duration of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

